OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 827

# Rheoliadau Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru 2017

## RHAN 3: SWYDDOGAETHAU

### Cwmpas

**8.** Yn ddarostyngedig i reoliad 9, caiff y Pwyllgor gynghori ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

### Dyletswyddau

**9.**—(1) Rhaid i'r Pwyllgor gynghori Gweinidogion Cymru ynghylch—

(a) rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol o bob ffynhonnell;

(b) materion ehangach o ran cydnerthedd ac argyfyngau o safbwynt rheoli perygl llifogydd;

(c) y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol; a

(d) gwaith a gyflawnir gan sefydliadau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

(2) Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan reoliad 9(1), rhaid i'r Pwyllgor wneud unrhyw argymhellion y mae'n credu eu bod yn arwain at waith partneriaeth effeithiol rhwng awdurdodau rheoli risg Cymru a sefydliadau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, yn unol ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

### Pwerau

**10.** Caiff y Pwyllgor—

(a) sefydlu ei raglen ei hun o waith cynghori ar berygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru;

(b) cynghori awdurdodau rheoli risg Cymru ynghylch rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol o bob ffynhonnell;

(c) cynghori awdurdodau rheoli risg Cymru ynghylch materion ehangach o ran cydnerthedd ac argyfyngau o safbwynt rheoli perygl llifogydd;

(d) cynghori awdurdodau rheoli risg Cymru ar y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol; ac

(e) ymrwymo i gytundebau â chyrff eraill, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

### Cyfarfodydd

**11.**—(1) Rhaid i'r Pwyllgor gynnal ei gyfarfod cyntaf o fewn 6 mis i'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, a rhaid cynnal cyfarfodydd dilynol fesul ysbaid o ddim mwy na 6 mis ar ôl hynny.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (1), caiff y Pwyllgor reoleiddio pa mor aml y bydd yn cynnal ei gyfarfodydd.

**Adroddiadau**

**12.**—(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd, rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ar y modd y bu iddo arfer a chyflawni ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Rhaid i'r adroddiad o dan baragraff (1) gynnwys—

(a) crynodeb o'r cyngor a roddwyd gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwnnw; a

(b) manylion aelodaeth, is-bwyllgorau, cyfarfodydd a'r taliadau cydnabyddiaeth a'r lwfansau a ddarparwyd.

(3) At ddibenion paragraff (1), ystyr "cyfnod adrodd" yw—

(a) y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2018 ac sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2018; a

(b) pob cyfnod o 12 mis hyd at 5 Ebrill ar ôl hynny.